# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2017**

**TGAU (NEWYDD)**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2017. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH – UNED 3**

**HAF 2017**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**
**Cynnydd yn y defnydd o'r we**

A1. Faint o amser oedd pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn ei dreulio ar-lein bob wythnos yn 2015? [1]

27 awr 36 munud
(Casglu gwybodaeth)
✓ = 1 marc

A2. Pwy sy'n rheoli dulliau cyfathrebu ym Mhrydain? [1]

Ofcom
(Casglu gwybodaeth)
Mewnbynnu marc
✓ = 1 marc

A3. Rhowch ddau reswm pam mae pobl yn treulio mwy o amser ar y we erbyn hyn?

- Mwy o ddyfeisiau i fynd ar y we (e.e. cyfrifiadur, gliniadur, ffôn a thabled)
- Gwefannau (cymdeithasol) yn boblogaidd
- Siopa (ar-lein)
- (Chwarae) gemau (cyfrifiadur)
- Gwylio rhaglenni (ar alw)

(Dehongli a chasglu gwybodaeth)
✓ = 1 marc (Ticio hyd at 2 reswm)

**Darn Darllen 2**
**Rhai ffeithiau am y gwefannau cymdeithasol mwyaf poblogaidd**

A4. Pam mae gwefannau cymdeithasol mor boblogaidd? Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r tri sylw cywir. [3]

| | |
|---|---|
| Gall pobl gadw cysylltiad gyda ffrindiau, teulu a chydweithwyr | ✓ |
| Mae pobl yn medru dod o hyd i ddiddordebau a syniadau newydd. | ✓ |
| Dydy pobl ddim yn gallu anfon llythyrau i ben draw'r byd. | |
| Gall pobl rannu lluniau, llwytho fideos a gosod negeseuon yn gyflym. | ✓ |
| Mae pawb yn treulio llai o amser ar y rhyngrwyd nag yr oedden nhw 10 mlynedd yn ôl. | |
| Rhaid i berson fod o oed penodol i ddefnyddio'r wefan. | |


(Dehongli a chasglu gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

A5. Cysylltwch y wefan â chyfanswm y defnyddwyr. [1]

Twitter | Dros 332 miliwn o ddefnyddwyr.
Facebook | 100 miliwn o ddefnyddwyr.
LinkedIn | Biliwn a mwy o ddefnyddwyr.



(Casglu gwybodaeth)
Rhaid cael pob un yn iawn i gael y marc.
Mewnbynnu marc

**Darn Darllen 3**
**Gwefannau cymdeithasol – bendith neu felltith?**

A6**.** Faint ydy'r oedran cyfreithiol i ymuno ag Instagram? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

(Casglu gwybodaeth)
1 marc am roi ✓ yn y blwch cywir:

- Tair ar ddeg

A7. Pam mae Pennaeth Blwyddyn 7 eisiau codi'r oed cyfreithiol i ymuno â gwefannau cymdeithasol? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

(Casglu a dehongli gwybodaeth)

1 marc am roi ✓ yn y blwch cywir:

- Dydy plant o dan un ar bymtheg ddim digon call ac aeddfed. ✓

A8. Sut mae gwefannau cymdeithasol yn help i fusnesau bach? [1]

(Casglu gwybodaeth)

Un marc am nodi un o'r canlynol:
- Hysbysebu.
- Cysylltu â chwsmeriaid.
- Datblygu'r busnes.

✓ = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

A9. Mae llawer yn credu bod gwefannau cymdeithasol yn dda. Mae eraill yn credu eu bod yn ddrwg. [5]

Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r 5 gosodiad sy'n sôn am bethau **drwg**.

Un marc yr un am bob sylw yn y golofn gywir hyd at 5 marc.

(Dehongli a dosbarthu gwybodaeth)

| | **Drwg (✓)** |
|---|---|
| Gall pobl rannu eu profiadau a'u teimladau trist a hapus a chael cefnogaeth cylch anferth o ffrindiau a theulu. | |
| Mae defnyddio dyfeisiau electronig yn y gweithle yn gostwng lefelau cynhyrchu. | ✓ |
| Drwy gydol yr amser mae rhai pobl yn teimlo bod yn rhaid rhannu sylw neu wirio'r hyn mae pobl eraill wedi eu gosod. | ✓ |
| Mae rhyngweithio ar-lein yn lleihau rhyngweithio wyneb yn wyneb gyda phobl go iawn. | ✓ |
| Mae busnesau yn gallu hysbysebu yn rhad ac am ddim. | |
| Codwyd wyth miliwn o bunnoedd mewn chwe diwrnod tuag Ymchwil Cancr. | |
| Mae'r gwefannau'n gwneud i bobl deimlo'n agos at ffrindiau a pherthnasau. | |
| Gall pobl deimlo'n unig iawn a chuddio y tu ôl i'w proffil ar-lein. | ✓ |
| Gellir rhannu negeseuon creulon a sarhaus. | ✓ |

Os bydd ymgeisydd wedi ticio 6 bocs – cyfrif yr hyn sy'n gywir a thynnu marc.
Os bydd ymgeisydd wedi ticio mwy na 6 bocs – dim marc.
Mewnbynnu marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 4**
**Gwefannau cymdeithasol yn 'achub y Gymraeg'**

A10. Pam mae gwefannau cymdeithasol yn bwysig i ddyfodol y Gymraeg? Rhowch o leiaf **dri** rheswm dros eich ateb. [3]
(Dehongli a dadansoddi gwybodaeth)

Gellir sôn am rai o'r rhesymau canlynol:

- Cyfle i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg (ymysg eu cyfoedion).
- Technoleg (fel tecstio, trydar a blogio yn golygu bod) mwy o bobl yn gweld yr iaith ar ffurf ysgrifenedig.
- Mae'r we'n blatfform i bobl ysgrifennu'n rhydd yn y Gymraeg
- Peidio â phoeni'n ormodol am gywirdeb.
- Y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwefannau yw dyfodol y Gymraeg.
- Os yw iaith am oroesi rhaid iddi newid/cyfeirio at fratiaith.
- Y rhyngrwyd yn rhan annatod o fywyd ieuenctid tra dydy llyfr ddim.
- Pobl ifanc erbyn hyn yn cael dylanwad ar yr iaith.
- Pobl ifanc yn ysgrifennu cymaint â phobl hŷn.

✓ = 1 marc

A11. Pa ymadrodd/idiom mae David Crystal yn ei ddefnyddio i ddangos bod perygl y bydd bobl ifanc yn colli diddordeb yn yr iaith Gymraeg? [1]

(Dehongli ac adnabod geiriau)

- troi eu trwynau/troi trwynau/troi trwyn/pobl ifanc yn troi trwynau ar yr iaith

✓ = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 4 a 5**
**Gwefannau cymdeithasol yn 'achub y Gymraeg'**
**Seiber Fwlio**

A12. Mae Darn Darllen 4 a Darn Darllen 5 yn sôn am Wefannau Cymdeithasol.
**Cymharwch** y ddau ddarn gan esbonio

- beth yw pwrpas darn darllen 4 a darn darllen 5
- sut mae'r darnau'n llwyddo i drosglwyddo negeseuon am wefannau cymdeithasol. [10]

(Dadansoddi, dehongli ac egluro a chymharu dau destun)
Gellir sôn am bwyntiau fel:

| | |
|---|---|
| • Erthygl cylchgrawn Golwg<br>• David Crystal a Dyl Mei yn gweld potensial y we<br>• Agwedd gadarnhaol at yr holl gyfleoedd ddaw i'r iaith yn sgil y dechnoleg<br>• Safbwyntiau personol a gogwydd gwleidyddol ynglŷn â pheidio beirniadu iaith y to iau<br>• Geirfa gadarnhaol e.e. ffynnu, cyfle, manteisio, hwb<br>• Cyfweliad a dyfyniadau<br>• Barn bersonol<br>• Idiomau e.e. troi eu trwynau, mynd o nerth i nerth<br>• Iaith lafar e.e. pobol | • Tudalen gwe Heddlu Gogledd Cymru<br>• Heddlu Gogledd Cymru yn gweld peryglon i rhybuddio/cynghori<br>• Agwedd negyddol at yr holl gyfleoedd i gamddefnyddio'r dechnoleg<br>• Safbwynt gwrthrychol a chanolbwyntio ar ddefnyddio ffeithiau yn hytrach na mynegi safbwynt<br>• Geirfa negyddol e.e. bygwth, bychanu, cas, sarhaus, bygythiol<br>• Ffurf cwestiwn ac ateb<br>• Defnyddio ffeithiau ac ystadegau<br>• Pwyntiau bwled<br>• Berfau gorchmynnol wrth roi cyngor<br>• Cytseinedd – slogan 'bloc ar y bwli'<br>• Logo heddlu<br>• Isbenawdau<br>• Iaith ffurfiol – berfau amhersonol e.e. gellir |

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

**0 marc**
os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn
**1-2 marc**
peth ymdrech i gymharu'r ddau destun yn fras
**3-4 marc**
ymdrech eithaf da i drafod neges a phwrpas y ddau destun gyda rhai sylwadau perthnasol
**5-6 marc**
trafod pwrpas a neges y ddau destun yn dda gan gymharu ac enghreifftio/dyfynnu sut y cyflwynir y neges
**7-8 marc**
trafod pwrpas a neges y ddau destun yn dda iawn gan gymharu ac enghreifftio/dyfynnu sut y cyflwynir y negeseuon hynny'n bwrpasol
**9-10 marc**
trafod pwrpas a neges y ddau destun yn aeddfed gan gymharu ac enghreifftio'n sut y cyflwynir y negeseuon yn gyson a phwrpasol

Mewnbynnu marc



© WJEC CBAC Cyf.

## Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

✓ neu ✓✓ am gynnwys
Rhy fyr – cosbi o fewn y disgrifiadau
Camddehongli testun – haneru marc cynnwys
Ffurf anghywir – cosbi band marciau – tynnu 2 farc
Aroleuo rhan o'r gwaith e.e. paragraff neu ddau – gwallau iaith (gellir chwilio y tu hwnt i hynny gydag ymgeiswyr da)
Mewnbynnu dau farc – marc cynnwys (10) a marc iaith (10)



© WJEC CBAC Cyf.